Issue 1: May 2006

Smartcards

for Concessionary Travel in Wales

Project Objectives

This is a Wales wide project that will introduce smartcards for use by the over 60's and the disabled who are entitled to free concessionary travel on the Welsh bus network. New electronic ticketing machines (ETMs) will be used to read these new smartcards. Some bus operators have already installed these new ETMs. The new smartcards will conform to recently introduced industry standards, which have been subject to significant development over the last couple of years.

In recognition of the important current and future use of smartcards on public transport the Welsh Assembly Government is providing significant financial support to the scheme through the regional transport consortia in Wales. The scheme supports the Assembly Government strategy of continuing to introduce new and innovative technology in Wales. It also demonstrates continued Assembly support for the very popular concessionary fares scheme.

The scheme will provide true interoperability for free concessionary travel, allowing passengers to travel seamlessly across the country with different operators. In turn the scheme will provide greater efficiencies for the operators who will be able to record passenger journey details more accurately and reduce administration in calculating the amount of reimbursement to be claimed.

The New industry Standards

The new standards have been developed by the Integrated Transport Smartcard Organisation (ITSO). Started in 1998 it is a non-profit sharing organisation owned by its members including bus operators, train companies, suppliers to the industry and regional and local authorities. ITSO has set about creating a common specification for smartcards, ETMs and back office equipment, to enable the use of interoperable smartcards in the transport sector. For further information on ITSO itself, along with the specific details of the new standards visit: **www.itso.org.uk**

The Future

The Welsh Assembly Government is providing financial support for the move to ITSO standards on a one-off basis over the next two years. It is unlikely that funding will be available beyond this timescale to allow operators to upgrade their equipment. Support for upgrades will place operators in a strong position for future invitation to tenders which will require contracted service operators to have ITSO-compliant equipment.

It is planned that all ETMs in Wales will meet ITSO standards by the end of 2007. A rolling programme to replace current equipment has already started providing a simplified reimbursement process for operators.

How will the smartcard system work?

Passengers will present their smartcard in the vicinity of the card reader on the ETM as they board the bus. Details from the card will be transmitted to the bus ETM. This data will then be downloaded on return to the depot to the depot reader. The data will then flow to a processing system operated by the operator, or the local authority. It will then pass to the back office system which will handle passenger card data and reimbursement.



Public Transport Operator Benefits

Concessionary Travel

- The ability to use data to tailor services in line with passenger traffic
- Reduced reimbursement administration with potential for better cash flow
- Subsidised equipment costs

Potential for Future Commercial Benefits

- Ability to participate in interoperable ticketing schemes between operators
- A greater understanding of passenger travel patterns
- Operators will no longer be tied to a particular supplier of ETMs
- The ability to lower the potential for fraud by both passengers and staff
- The potential to market other passenger services

travel seamlessly across the country

Passenger Benefits

Introduction of standardised smartcard technology provides continued benefit of concessionary travel and demonstrates the Welsh Assembly Government's commitment to the concessionary sector. As there is no visible change in existing arrangements this will provide continuity to passengers, although interoperability will give passengers the ability to use their card with confidence throughout Wales within the terms of the concessionary scheme.

Looking forward the public will see increased benefit through wider integrated use of smartcards through the investment in this innovative technology. By responding better to customer needs, this will help to encourage reduced car usage and a shift to public transport.

What Next?

In the South East Wales (SEWTA) and North Wales (TAITH) areas a number of operators have already installed new equipment. In the South West Wales (SWWITCH) area detailed planning is to start shortly for delivery in 2007, where initial planning and consultation in Mid Wales (TrACC) will start in the near future.

Solutions for a back office system that will support smartcards are currently being investigated. It is envisaged that work will start in the second half of 2006.

This newsletter is also available on:
www.sewta.gov.uk
www.taith.gov.uk
www.tracc.gov.uk
www.swwitch.org.uk
www.traffic-wales.com

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Rhifyn 1: Mai 2006

Cardiau Call

ar gyfer Consesiynau Teithio yng Nghymru

Amcanion y Prosiect

Dyma brosiect Cymru gyfan a fydd yn cyflwyno cardiau call at ddefnydd pobl dros 60 a phobl anabl y mae hawl ganddynt i gonsesiynau teithio rhad ac am ddim ar rwydwaith bysiau Cymru. Defnyddir peiriannau tocynnau electronig (ETM) newydd i ddarllen y cardiau call newydd hyn. Mae rhai gweithredwyr bysiau eisoes wedi gosod y peiriannau ETM newydd hyn. Bydd y cardiau call newydd yn cydymffurfio â safonau diwydiant a gyflwynwyd yn ddiweddar, a ddatblygwyd yn sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

I gydnabod y defnydd pwysig o gardiau call ar gludiant cyhoeddus heddiw ac yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cymorth ariannol sylweddol i'r cynllun drwy'r consortia cludiant rhanbarthol yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cefnogi strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer parhau i gyflwyno technoleg newydd ac arloesol yng Nghymru. Mae hefyd yn dangos cymorth parhaus gan y Cynulliad i'r cynllun tocynnau teithio rhad hynod boblogaidd.

Bydd y cynllun yn darparu gwir allu i ryngweithredu ar gyfer consesiynau teithio rhad ac am ddim, gan alluogi teithwyr i deithio'n ddi-dor ledled y wlad gyda gwahanol weithredwyr. Yn ei dro bydd y cynllun yn rhoi gwell effeithlonrwydd i'r gweithredwyr a fydd yn gallu cofnodi manylion siwrnai teithwyr yn fwy cywir a lleihau gwaith gweinyddu wrth gyfrifo'r swm ad-dalu i'w hawlio.

Y Safonau Diwydiant Newydd

Datblygwyd y safonau newydd gan y Sefydliad Cardiau Call Cludiant Integredig (ITSO). Fe'i sefydlwyd ym 1998 ac mae'n sefydliad nad yw'n rhannu elw sy'n eiddo i'w aelodau gan gynnwys gweithredwyr bysiau, cwmnïau trên, cyflenwyr i'r diwydiant ac awdurdodau rhanbarthol a lleol.

Aeth ITSO ati i greu manyleb gyffredin ar gyfer cardiau call, peiriannau ETM ac offer cefn swyddfa, er mwyn defnyddio cardiau call rhyngweithredol yn y sector cludiant. Am wybodaeth bellach am ITSO ei hun, ynghyd â manylion penodol y safonau newydd ewch i: **www.itso.org.uk**

Y Dyfodol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cymorth ariannol i'r symudiad i safonau ITSO ar sail untro dros y ddwy flynedd nesaf. Nid yw'n debygol y bydd cyllid ar gael y tu hwnt i'r amserlen hon i alluogi gweithredwyr i uwchraddio eu hoffer. Bydd cymorth ar gyfer uwchraddio yn rhoi gweithredwyr mewn sefyllfa gref ar gyfer gwahoddiadau i dendro yn y dyfodol a fydd yn mynnu bod gan weithredwyr gwasanaeth wedi'u contractio offer sy'n cydymffurfio ag ITSO.

Bwriedir y bydd pob peiriant ETM yng Nghymru yn bodloni safonau ITSO erbyn diwedd 2007. Mae rhaglen dreigl i ddisodli offer cyfredol eisoes wedi dechrau gan ddarparu proses ad-dalu symlach i weithredwyr.

Sut y bydd y system cardiau call yn gweithio?

Bydd teithwyr yn cyflwyno eu cerdyn call ar gyfyl y darllenwr cardiau ar y peiriant ETM wrth fynd ar y bws. Trosglwyddir manylion o'r cerdyn i beiriant ETM y bws. Pan ddychwelir i'r depo, caiff y data hwn ei lwytho i lawr i ddarllenwr y depo. Yna aiff y data i system brosesu a weithredir gan y gweithredwr, neu'r awdurdod lleol. Bydd wedyn yn trosglwyddo'n ôl i'r system cefn swyddfa a fydd yn trin data cardiau teithwyr ac ad-daliadau.



Manteision i Weithredwyr Cludiant Cyhoeddus

Consesiynau Teithio

- Y gallu i ddefnyddio data i deilwra gwasanaethau yn unol â thraffig teithwyr
- Llai o waith gweinyddu ad-daliadau gyda'r potensial am well llif arian
- Costau offer a gymorthdelir

Potensial ar gyfer Buddiannau Masnachol yn y Dyfodol

- Gallu i gyfranogi mewn cynlluniau tocynnau rhyngweithredol rhwng gweithredwyr
- Gwell dealltwriaeth o batrymau teithio teithwyr
- Ni fydd gweithredwyr ynghlwm wrth gyflenwr peiriannau ETM penodol mwyach
- Y gallu i leihau'r posibilrwydd o dwyll gan deithwyr a staff
- Y potensial i farchnata gwasanaethau eraill i deithwyr

teithwyr i deithio'n ddi-dor ledled y wlad

Manteision i Deithwyr

Trwy gyflwyno technoleg cardiau call safonedig, darperir mantais barhaus consesiynau teithio a dangosir ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r sector consesiynau. Gan nad oes unrhyw newid gweladwy mewn trefniadau presennol, bydd hyn yn rhoi parhad i deithwyr, er bydd y gallu i ryngweithredu yn golygu y gall teithwyr ddefnyddio eu cerdyn gyda hyder ledled Cymru yn unol â thelerau'r cynllun consesiynau.

Yn y dyfodol, bydd y cyhoedd yn gweld budd cynyddol drwy ddefnydd integredig ehangach o gardiau call drwy fuddsoddiad yn y dechnoleg arloesol hon. Drwy ymateb yn well i anghenion cwsmeriaid, bydd hyn yn helpu annog pobl i ddefnyddio eu ceir yn llai aml a newid i gludiant cyhoeddus.

Beth Nesaf?

Yn ardaloedd De Ddwyrain Cymru (SEWTA) a Gogledd Cymru (TAITH) mae nifer o weithredwyr eisoes wedi gosod offer newydd. Yn ardal De Orllewin Cymru (SWWITCH) bydd gwaith cynllunio manwl yn dechrau cyn hir i'w gyflwyno yn 2007, tra bydd gwaith cynllunio ac ymgynghori cychwynnol yng Nghanolbarth Cymru (TrACC) yn dechrau yn y dyfodol agos.

Mae atebion ar gyfer system cefn swyddfa a fydd yn cefnogi cardiau call yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd gwaith yn dechrau yn ail hanner 2006.

Mae'r cylchlythyr hwn ar gael hefyd ar:
www.sewta.gov.uk
www.taith.gov.uk
www.tracc.gov.uk
www.swwitch.org.uk
www.traffic-wales.com

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government